# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Ionawr 2025

Amser: 09.32 - 11.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15048

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Lee Waters AS |
| Tystion: | Gary Pritchard, Ynys Mon Council<br>Mark Pritchard, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Mary Ann Brocklesby, Cyngor Sir Fynwy<br>Jane Gebbie, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Evan Jones (Dirprwy Glerc)<br>Rhys Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Peter Fox AS a Laura Anne Jones AS sydd wedi cymryd lle Altaf Hussain AS a James Evans AS fel Aelodau o'r Pwyllgor.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Laura Ann Jones AS.

1.4 Datganodd Siân Gwenllian AS fod dau aelod o'i theulu yn gweithio i gynghorau sir.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Sesiwn dystiolaeth 1 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o'i waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am eu barn ar y fformiwla ariannu llywodraeth leol ac a oeddent yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r fformiwla ariannu.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan Community Leisure UK mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.2 Llythyr gan Archwilio Cymru gyda gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 14 Tachwedd 2024

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â'r cynllun hawl i brynu

3.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.4 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar y Sector Rhentu Preifat

3.4 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Ystyried tystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr: Crynodeb o waith ymgysylltu

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur crynodeb ar y gwaith ymgysylltu.

## 7 Rheoliadau'r cynllun peilot ar gyfer cofrestru etholiadol

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur.